40 GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

# NEWYDDLEN

## PASG 2025

## CROESO I NEWYDDLEN PASG 2025 GISDA!

Rydym yn awyddus i rannu'r newyddion a digwyddiadau diweddaraf gan GISDA. Ers dechrau'r flwyddyn, mae wedi bod yn gyfnod llawn digwyddiadau cyffrous, ac yn y newyddlen hon, byddwn yn sôn am rai o’r ffyrdd mae GISDA yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc Gwynedd.
Fel bob amser, rydym yn falch o’r gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi pobl ifanc a’u helpu i adeiladu dyfodol disglair.

**Mae Gisda'n troi yn 40!** Eleni, rydym yn nodi 40 mlynedd o wneud gwahaniaeth yn fywydau pobl ifanc Gwynedd.
Ers pedair degawd, mae Gisda wedi bod yn ymroddedig i gefnogi a darparu cyfleoedd i bobl ifanc, gan ddarparu’r sgiliau, yr adnoddau a’r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i adeiladu dyfodol llachar.
Bydd digwyddiadau yn ystod y flwyddyn i ddathlu ein pobl ifanc a'n gwasanaeth, codi ymwybyddiaeth a chasglu arian.

## DIGWYDDIADAU GISDA 40 2025

| | |
|---|---|
| 01.05.2025 | CYMANFA GANU |
| 23.05.2025 | HER 40KM - CERDDED |
| 10.07.2025 | CYNHADLEDD GWASANAETHAU POBL IFANC |
| 17.10.2025 | SLEEP OUT |
| TBC | CYNGERDD MAWREDDOG - PONTIO |

# HWB NEWYDD YM MHWLLHELI




Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi prynu Caxton House ym Mhwllheli ac yn ei drawsnewid yn Hwb gyda llety i bobl ifanc 16-25 oed.

Bydd yr Hwb yn cynnwys:

- Llety i hyd at 4 o bobl ifanc
- Swyddfa a 2 ystafell gyfarfod
- Cegin llawn offer ar gyfer coginio a dysgu sgiliau bywyd
- Gofod creadigol ar gyfer mynegiant artistig
- Amgylchedd croesawgar i bobl ifanc ymlacio a datblygu

Bydd yr hwb yn cynnig lle diogel a chefnogol ar gyfer pobl ifanc i gael mynediad at adnoddau, datblygu sgiliau a chreu cysylltiadau.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael am agoriad swyddogol yn fuan.

## Mwy na Tho: Trawsnewid Mannau, Newid Bywydau

Diolch i grant Centrepoint x Nationwide mae Gisda wedi helpu pobl ifanc sy'n profi digartrefedd i greu mannau y gallant wir eu galw'n gartref.

Gyda'r grant, mae 37 o ystafelloedd wedi cael eu huwchraddio—gan ychwanegu dodrefn cyfforddus, addurniadau, ac eitemau hanfodol sy'n troi llety yn fan diogel a phersonol. Oherwydd mae cael lle i fyw yn bwysig, ond mae cael lle i berthyn yn gwneud y gwahaniaeth go iawn.

"Mae'r rhaglen hon wedi galluogi pobl ifanc i fynegi eu personoliaeth a'u steil i wneud eu hystafell yn gartref. Rydym yn hynod ddiolchgar i Centrepoint am gynnwys Gisda yn y rhaglen hon." – Sharon Thomas, Gisda



# Llais : Ymgyrch Trafnidiaeth




Mae’r ymgyrch dros drafnidiaeth fforddiadwy wedi cael llwyddiant mawr gyda chyflwyno tocynnau bws £1 i bobl ifanc dan 21 yng Nghymru!

Datblygwyd Bwrdd Pobl Ifanc yr Ymgyrch Trafnidiaeth oherwydd angerdd y grŵp am gostau teithio a’r effaith ar fywyd pobl ifanc. Ers sefydlu’r Bwrdd ym mis Awst 2021, mae trafnidiaeth wedi bod yn bryder mawr, gan fod llawer o bobl ifanc yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus i deithio i’r coleg, gwaith, apwyntiadau neu ymweliadau teuluol a ffrindiau. Mae’r gost teithio’n uchel, yn enwedig i bobl ifanc bregus sy’n ddibynnol ar gefnogaeth ariannol.

Er ein bod yn credu bod mwy i’w wneud, mae hwn yn gam yn y cyfeiriad iawn. Diolch enfawr i bawb oedd yn rhan ohono, gan gynnwys Siân Gwenllïan am ei chefnogaeth.

Mae hyn yn profi pa mor effeithiol y gall ymgyrchoedd a arweinir gan bobl ifanc fod, a pham mae fforwm fel y Bwrdd Pobl Ifanc mor bwysig!

Dros yr wythnosau diwethaf, mae GISDACTIF wedi bod yn cydweithio gyda Richard o Academi Cyfleoedd i gynnal gweithdai ffotograffiaeth unigryw – sy'n cyfuno cerdded â chreadigrwydd! Mae’r sesiynau hyn yn gyfle i fwynhau'r awyr agored wrth ddysgu sgiliau newydd mewn ffotograffiaeth.

Y daith gyntaf oedd i Gwm Idwal, ac yna ymlaen i sesiwn rownd Llyn Padarn. Cafon ni ymateb gwych gan y bobl ifanc, ac maen nhw’n edrych ymlaen at y daith gerdded nesaf yn Rhaeadr Fawr (Aber Falls).

Mae’r gweithdai hyn yn ffordd wych o gysylltu â natur, meithrin llygad creadigol, ac ymlacio mewn cwmni da.

GISDACTIF



# Dathliad Addysg

Ym mis Ionawr, roeddem yn falch iawn o ddathlu llwyddiant disgyblion o ysgolion Gwynedd a Môn yng Ngwesty'r Celt! Roedd yn wych i weld y bobl ifanc hynny yn cael eu cydnabod am eu llwyddiannau a'u hymdrechion.

Rydym yn hynod falch o'n partneriaeth â'r adrannau addysg Gwynedd a Môn i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddatgysylltu o'r ysgol. Mae cydweithio fel hyn yn allweddol i sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cyfleoedd gorau i ddatblygu sgiliau bywyd, magu hyder, a chreu dyfodol cadarnhaol i'w hunain.

Cefnogodd y prosiect disgyblion o saith ysgol wahanol i gwblhau mwy na 150 o Achrediadau Agored Cymru, gan ennill cymhwyster llawn 'Sgiliau Byw'n Annibynnol.'



Drwy gwblhau'r rhaglen, dysgwyd sgiliau hanfodol fel coginio, cyllidebu, dilyn cyfarwyddiadau, rhifedd, gweithio mewn tîm, bod yn greadigol, ymdopi ag iechyd meddwl a llawer mwy.

Roedd y profiad hwn yn gyfle nid yn unig i ennill cymhwyster ond hefyd i fagu hyder a chynyddu eu hunanwerth.
Roedd yn wych cael Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet dros Addysg yng Ngwynedd, i gyflwyno'r tystysgrifau i'r disgyblion. Roedd yn fraint gweld pob un o'r disgyblion yn derbyn eu tystysgrifau a chael cyfle i ddathlu eu llwyddiannau!

Diolch i Gronfa Ffyniant Cyffredin am y cyllid hollbwysig sydd wedi galluogi'r prosiect hwn i fod yn bosib. Mae'r gefnogaeth hon wedi ein galluogi i ddarparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i bobl ifanc ac arfogi nhw gyda sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol. Fel mudiad, rydym yn hynod falch o'r bobl ifanc hyn.





# Trip i Lerpwl



Roedd grŵp o bobl ifanc, ynghyd â staff GISDA, wedi cael amser anhygoel yn Lerpwl! Roedd y trip yn llawn profiadau cyffrous a diwylliannol, gan roi cyfle i'r grŵp archwilio rhai o atyniadau mwyaf cyffroes y ddinas.

Yn ystod y trip, ymwelodd â'r Amgueddfa Byd, Gravity X, British Music Experience, ac Amgueddfa Lerpwl. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau, gan ddysgu am hanes, gwyddoniaeth, cerddoriaeth, a'r datblygiad trawiadol y mae Lerpwl wedi'i wneud dros y blynyddoedd.

Roedd y trip yn gyfle i'r bobl ifanc ddatblygu eu gwybodaeth a chreu atgofion gwerthfawr. Rydym yn falch iawn fod pawb wedi mwynhau'r profiad a chael cyfle i ddysgu am feysydd gwahanol. Diolch yn fawr i Taith am ariannu'r trip ac am wneud hyn yn bosib.

Bydd y grŵp yn sicr yn cofio'r trip hwn am flynyddoedd i ddod!

# Ymweliad o Wlad Pwyl

Roedd yn bleser croesawu Equality Factory o Łódź, Gwlad Pwyl, i GISDA. Mae'r elusen yn hyrwyddo hawliau a chydraddoldeb i bobl LHDTC+. Yn haf 2024, bu pobl ifanc a staff GISDA yn ymweld â Łódź fel rhan o'r prosiect, felly roedd yn wych eu croesawu i Gymru a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad.

Yn ystod eu hymweliad, cawsant gyflwyniad ar waith GISDA a sesiwn ar ein prosiect LHDTC+, gydag ymweliad i'r clwb yng Nghaernarfon i gwrdd â phobl ifanc. Fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth am ein prosiect Cymorth Tai a'u tywys ar daith o amgylch ein hosteli a'n fflatiau, gan roi cipolwg ar sut rydym yn darparu llety diogel a chefnogol i bobl ifanc mewn angen. Yn ystod y daith, cawsant gyfle i gwrdd â rhai o'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi a chlywed eu profiadau.

Diolch i Taith am greu cyfleoedd i ni groesawu pobl i Gymru, rhannu arfer da a dathlu ein diwylliant!




## Prosiect 'Fel Merch' yr Urdd

Eleni cafodd deg aelod o'r Urdd eu dewis i fynd ar daith ddyngarol i India gyda'r elusen Her Future Coalition.

Roedd y daith yn gyfle i'r aelodau gefnogi plant a merched bregus, yn ogystal â rhannu iaith a diwylliant Cymru sy'n seiliedig ar gynllun 'Chwarae yn Gymraeg' yr Urdd.

Un o'r deg a aeth draw i India oedd Keira, person ifanc sydd yn cael ei gefnogi gan GISDA.

Dywedodd Keira bod y trip wedi bod yn brofiad bythgofiadwy iddi a bod o wedi ei helpu i deimlo'n agosach at ei iaith Gymraeg. "Roedd yn brofiad diwylliannol anhygoel" - Meddai Keira.






## *COFFI GISDA*

Rydym yn falch o allu rhannu ein bagiau coffi newydd. Rydym wedi bod yn gweithio efo Coffi Dre ers ychydig o fisoedd i ddylunio bag "Coffi GISDA".

Mae Coffi Dre wedi'i ysbrydoli gan leoliadau Caernarfon, ac rydym wedi cadw at y thema hon trwy greu bagiau "Y Maes" oherwydd dyna ein golygfa o'n Swyddfa, y Fflatiau i bobl ifanc, a'n Caffi. Diolch enfawr i Ffion Pritchard, Artist Arweiniol yma'n Gisda am y dyluniad o'r Maes.




**£9 YR UN**

COFFI DRE

Cysylltwch i archebu bag - michael.allman@gisda.co.uk




## Adnewyddu Caffi Gisda a Hwb

Mae'r gwaith adnewyddu yng Nghaffi GISDA a Hwb i phobl ifanc bron a gorffen bellach, rydym yn gobeithio fydd y drysau yn agor yn y misoedd nesaf.

Bydd y Hwb yn cynnig lle diogel a chefnogol i bobl ifanc cael mynediad at adnoddau, datblygu sgiliau a chreu cysylltiadau.

Cadwch eich lygaid allan ar gyfer dyddiad agoriad

## HWB Bangor

Mae gennym leoliad newydd i ein Hwb ym Mangor. Mae'r Hwb newydd wedi'i leoli tu ol i phrif Safle Bws Bangor yn yr hen Caffi Hafan.

**Galw Mewn - Dydd Iau**

**Clwb LHDTC+ pob Dydd Mercher**

CYNGOR DINAS BANGOR CITY COUNCIL








## SUT GALLWCH CHI GEFNOGI GISDA:

### RHOI

**'GIVE AS YOU LIVE'** Give as you Live Online

Codwch arian i GISDA o'ch siopa bob dydd heb unrhyw gost ychwanegol! Sganiwch y Cod QR i ddarganfod mwy:

**CYFRANNU TRWY 'TEXT'**

Tecstiwch: **GISDA £X** i **70085** (e.e. **GISDA10** i **70085** i rhoi **£10** )

JustGiving

Ewch i'n tudalen Just Giving: **www.justgiving.com/gisda**






### FFYRDD ERAILL I HELPU

**Gwirfoddoli:** Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr i'n helpu i redeg ein rhaglenni a'n digwyddiadau.

**Codi Arian:** Trefnwch digwyddiad codi arian neu heriwch eich hun gyda sialens codi arian personol.

**Lledaenwch y gair:** Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am GISDA a'n gwaith.

**Dilynwch Ni ar Gyfryngau Cymdeithasol**

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol i glywed am ein newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd diweddaraf.

